# Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2011** |
| Amser: | **11:00 - 11:54** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Julie James (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Dirprwy Glerc)**<br>**Robin Wilkinson (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael : Ystyried Tystiolaeth Ysgrifenedig

2.1 Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn trafod y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law.

## 3. Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael : Ffyrdd o Weithio

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio'r cylch gorchwyl er mwyn cynnwys contractau o dan y trothwyau caffael a bennir gan Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl diwygiedig a ganlyn:

- Pa mor effeithiol yw'r rheoliadau caffael presennol o ran y modd y maent yn cael eu gweithredu yng Nghymru, a hynny o safbwynt cyflenwyr/contractwyr ac o safbwynt awdurdodau prynu?
- Sut y byddai'r newidiadau arfaethedig i Gyfarwyddebau perthnasol yr UE yn effeithio ar y broses caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y materion a ganlyn:
    - ymgysylltiad busnesau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) yn y broses caffael cyhoeddus;
    - defnyddio caffael cyhoeddus i ddiwallu amcanion polisi eraill (fel polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol);
    - cymhlethdodau a hyblygrwydd rheolau caffael presennol;
    - gwerth am arian i'r awdurdod prynu?
- Sut y dylid moderneiddio Cyfarwyddebau caffael yr UE a'r rheoliadau gweithredu a'r codau ymarfer yng Nghymru i ddiwallu anghenion awdurdodau prynu a chyflenwyr/contractwyr Cymru? Yn arbennig, sut y dylid ail-lunio rheoliadau a/neu ganllawiau ar gyfer contractau sy'n syrthio islaw'r trothwyau caffael a bennir gan Gyfarwyddebau'r UE?

3.2 Trafododd y Pwyllgor themâu allweddol a oedd yn deillio o'r ymchwiliad, a chytunodd yr Aelodau y byddai pob un ohonynt yn arwain ar un thema benodol yn ystod yr ymchwiliad.

## 4. Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael : Amserlennu Cyfarfodydd

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i gyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn:

- 19 Ionawr - prynhawn
- 2 Chwefror - bore
- 8 Chwefror
- 23 Chwefror - prynhawn

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i gael tystiolaeth gan y tystion a ganlyn:

- Cynrychiolwyr o lywodraeth leol (Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf);
- Aelodau'r diwydiant adeiladu;
- Aelodau'r sector fusnes;
- Cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector;
- Yr Athro Kevin Morgan;
- Gwerth Cymru;
- Cynrychiolwyr caffael yn y GIG;
- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ;
- Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.